***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## ATODLEN 1

## MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL A DIDDYMIADAU

### *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (dccc 1)*

22 (1) Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 1(10) (trosolwg) yn lle "addysgol arbennig" rhodder "dysgu ychwanegol".

(3) Yn Rhan 3, ym Mhennod 4 (darpariaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig)—

(a) yn enw'r bennod, yn lle "ADDYSGOL ARBENNIG" rhodder "DYSGU YCHWANEGOL";

(b) yn adran 64 (ystyr "darpariaeth ranbarthol" a "swyddogaethau addysg arbennig")—

(i) ym mhennawd yr adran, yn lle "addysg arbennig" rhodder "anghenion dysgu ychwanegol";

(ii) yn lle'r diffiniad o "swyddogaethau addysg arbennig" rhodder—

"ystyr "swyddogaethau anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs functions*") yw swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.";

(c) yn adran 65(1) (cyfarwyddyd i ystyried gwneud darpariaeth ranbarthol)—

(i) yn lle "swyddogaethau addysg arbennig" rhodder "swyddogaethau anghenion dysgu ychwanegol";

(ii) yn lle "anghenion addysgol arbennig" rhodder "anghenion dysgu ychwanegol".

(d) yn adran 66(1) (cyfarwyddiadau i wneud cynigion i sicrhau darpariaeth ranbarthol), yn lle "addysg arbennig" rhodder "anghenion dysgu ychwanegol".

(4) Yn adran 74(5) (y ffurf weithredu), ym mharagraff (d) yn lle "datganiad o anghenion addysgol arbennig o dan Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996" rhodder "cynllun datblygu unigol o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018".

(5) Yn adran 98(3) (dehongli'n gyffredinol a mynegai o ymadroddion sydd wedi eu diffinio), yn lle ""swyddogaethau addysg arbennig" ("*special education functions*")" rhodder ""swyddogaethau anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs functions*")".

(6) Yn Atodlen 2 (newidiadau rheoleiddiedig)—

(a) ym mharagraff 15—

(i) yn y pennawd, yn lle "addysgol arbennig" rhodder "dysgu ychwanegol";

(ii) yn is-baragraff (1), yn lle "addysgol arbennig" rhodder "dysgu ychwanegol";

(iii) yn is-baragraff (2), yn lle "addysgol arbennig" rhodder "dysgu ychwanegol";

(b) ym mharagraff 21—

(i) yn y pennawd, yn lle "addysgol arbennig" rhodder "dysgu ychwanegol";

(ii) yn lle "addysgol arbennig" rhodder "dysgu ychwanegol";

(c) ym mharagraff 23(3), ym mharagraff (a), yn lle "hasesu o dan adran 323 o Ddeddf Addysg 1996 a disgyblion sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig a gedwir o dan adran 324 o'r Ddeddf honno" rhodder "penderfynu o dan Ran 2 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a disgyblion â chynlluniau datblygu unigol a gynhelir o dan y Ddeddf honno";

(d) ym mharagraff 24—

(i) yn y pennawd, yn lle "addysgol arbennig" rhodder "dysgu ychwanegol";

(ii) yn is-baragraff (1), yn lle "addysgol arbennig" rhodder "dysgu ychwanegol";

(iii) yn is-baragraff (2), yn lle "addysgol arbennig" rhodder "dysgu ychwanegol".